

# SL(5)542 – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud rhanddirymiad o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin. O dan y Rheoliadau hyn, mae'r gofynion o ran tyfu amrywiaeth o gnydau wedi eu datgymhwyso yng Nghymru mewn cysylltiad â blwyddyn hawlio 2020.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn "gwneud cadarnhaol".

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig (o'r diwrnod Ymadael) yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) ond dim ond ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

